

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	28 Mehefin 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Julie Matthews / Gary Williams
Awdur yr adroddiad	Tania Silva
Teitl	Dyfodol Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru – Fframwaith Prif Gontractwr

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru yw'r unig Fframwaith Adeiladu Mawr sector cyhoeddus yn y rhanbarth. Cafodd ei greu gan Gyngor Sir Ddinbych a nhw sydd yn ei reoli ar ran y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Mae'r Fframwaith yn chwarae rhan bwysig fel y prif gyfrwng caffael ar gyfer prosiectau adeiladu Sector Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Bydd y Fframwaith presennol yn dod i ben ym mis Mai 2023. Mae'r broses o greu un yn ei le yn cymryd tua blwyddyn, mae'r adroddiad yma'n amlinellu effaith ddigynsail Covid, ochr yn ochr â'r hinsawdd economaidd bresennol a natur sut mae prosiectau cyfalaf yn cael eu hariannu, wedi effeithio ar gyflawni rhaglen waith Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru yn y rhanbarth, yn cynnwys y rhai yng Nghyngor Sir Ddinbych, a'r opsiynau sydd ar gael i barhau i gyflawni prosiectau sy'n ei ddefnyddio.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad ynglŷn ag ail-gaffael Fframwaith newydd neu beidio neu ymestyn y Fframwaith NWCP presennol am hyd at flwyddyn. Mae hyn er mwyn galluogi i gyrrff Sector Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys Cyngor Sir Ddinbych, i fod yn glir ynglŷn â sut y byddant yn caffael eu prosiectau adeiladu yn y dyfodol, yn enwedig y prosiectau hynny oedd wedi'u bwriadu'n wreiddiol i ddefnyddio'r Fframwaith a/neu oedd yn rhan o'r rhaglen waith cychwynnol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Cymeradwyo ymestyn y Fframwaith am flwyddyn, bydd hyn yn rhoi amser i brosiectau i barhau i gael eu gosod yn unol â'r rhaglen ac yn rhoi amser i ddeddfwriaeth gaffael newydd disgwylidig Llywodraeth Cymru/y DU i gael ei ryddhau a/neu sefydlu mewn i'r prosesau, i gael ei ddefnyddio tra'n caffael Fframwaith newydd.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae'r fframwaith wedi'i sefydlu i gyflwyno amrywiaeth o brosiectau mawr ar draws Gogledd Cymru gyda gwerth cyfunol o £500 miliwn ac mae hyn yn cynnwys prosiectau sydd â gwerth dros £250,000, mae'r fframwaith wedi'i rannu dros bump 'lot' gwerth.
- 4.2. Yn ogystal â'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, gall cyrff eraill yn y sector cyhoeddus ar draws y rhanbarth ddefnyddio'r fframwaith, gan ddarparu gwerth am arian a manteision ehangach i Ogledd Cymru.
- 4.3. Roedd y fframwaith yn arloesol wrth gyflwyno manteision cymunedol gan eu gwneud yn rhan graidd o ddull caffael; mae set o egwyddorion Manteision Cymunedol wedi'i gynnwys yng ngweithrediad y Fframwaith i ddatgloi adfywiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- 4.4. Un o flaenoriaethau'r fframwaith yw cynaliadwyedd, mae'n croesawu mentrau i ostwng carbon ac mae'n darparu hyfforddiant i fudd-ddeiliaid er mwyn sicrhau bod yr ymdrechion yn cyfrannu at fod yn ddi-garbon a thargedau a rhwymedigaethau amgylcheddol.
- 4.5. Nod y fframwaith yw sicrhau gwelliannau i'r amgylchedd adeiledig drwy ddarparu'r cyfleusterau gwerth gorau, cynaliadwy sydd yn defnyddio ynni'n effeithlon; defnyddio safonau diogelwch ac amgylcheddol uchaf posibl, arloesedd a chydweithio, a chreu gwaddol parhaol trwy dargedu buddsoddiad mewn cyflogaeth a chymunedau.
- 4.6. Mae'n gweithredu mewn amgylchedd o fod yn agored, yn dryloyw ac yn hyblyg, sydd yn galluogi budd-ddeiliaid i groesawu'r dull partneriaeth.

4.7. Sefyllfa'r Farchnad Adeiladu ar ôl Covid a Brexit

Yn dilyn cyfnod o newidiadau digynsail yn y byd, ac yn benodol yn y DU oherwydd Brexit, Covid a'r rhyfel yn Wcráin yn fwy diweddar, mae'r modd mae'n rhaid i ddiwydiant adeiladu weithredu wedi newid yn sylweddol. Er mwyn deall graddfa ac

effaith yr heriau hyn, fe wnaethom gynnal cyfres o gyfarfodydd gyda chleientiaid a chontractwyr, yn sgil yr ymgysylltu NWCP, cawsom ddarlun clir o'r problemau sy'n wynebu'r diwydiant adeiladu a sut mae contractwyr yn ymateb i'r heriau hyn.

- 4.8. Mae'r problemau cyffredinol wedi'u rhestru yn yr adroddiad llawn, ynghyd ag argymhellion rydym ni'n credu sydd yn galluogi cleientiaid a chontractwyr i symud drwy'r cyfnod pontio yn y ffordd orau posibl a pharhau i weithredu'n gydweithredol.

[Gweler Atodiad 1 - Adroddiad llawn, Dyfodol Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru](#)

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Bydd y Fframwaith yn parhau i gefnogi blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol cyfredol (2017-2022) o ran:
- 5.2. **Yr Amgylchedd** - drwy gefnogi lleihau allyriadau carbon o asedau'r Cyngor trwy ddarparu adeiladau newydd a rhai wedi'u hailwampio. Bydd hefyd yn cyfrannu at fabwysiadu mentrau di-garbon sydd yn galluogi cyrff caffael i reoli ôl troed carbon eu hased, yn ogystal â darparu hyfforddiant i gleientiaid a'r gadwyn gyflenwi.
- 5.3. **Cymunedau Cryf** - drwy ddefnyddio ein gwariant fel cyfrwng i ddarparu Manteision Cymunedol sydd yn cefnogi pobl i gynllunio a siapia eu cymunedau.
- 5.4. **Pobl Ifanc** - drwy barhau i adeiladu ysgolion trwy raglen Ysgolion yr 21ain ganrif a sicrhau fod pob contract yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau, profiad gwaith, cyngor gyrfaoel a mentora, yn ogystal â chreu cyflogaeth gynaliadwy yn lleol.
- 5.5. Bwriad y Fframwaith yw manteisio ar gyfleoedd i leihau allyriadau carbon yn yr amgylchedd adeiledig drwy
- 5.5.1. Gyflwyno mecanwaith i adnabod allyriadau carbon sylfaenol gan ei Contractwyr, adolygu targedau lleihau blynyddol eu prif contractwyr gan gynnwys eu cadwyn gyflenwi ac adolygu eu perfformiad yn erbyn cyflawni bod yn ddi-garbon
- 5.5.2. Meithrin a hyrwyddo amgylchedd cydweithio gyffredin o arferion gorau a gwelliant parhaus sy'n arwain yn y diwydiant, gan weithio tuag at allyriadau carbon net sero
- 5.5.3. Darparu tystiolaeth reolaidd a gwrthrychol o berfformiad contractwyr yn erbyn y targedau lleihau allyriadau carbon maent wedi'u gosod i'w hunain yn eu Cynllun Cyflawni Sero-Net

- 5.5.4. Herio'r status quo; ysgogi creadigrwydd ac arloesedd; hyrwyddo dysgu ar y cyd
- 5.5.5. Cynnal ansawdd, diogelwch, ymarferoldeb a fforddiadwyedd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Mae Cytundeb Rhwng Awdurdodau wedi cael ei arwyddo gan bob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn ymrwymo i dalu £15,000 yr un y flwyddyn fesul ALI, efallai y bydd angen ymestyn hyn am flwyddyn ychwanegol neu benderfynu fod y cytundeb yn aros yn ei le am cyn hired â bod gennym Fframwaith.
- 6.2. Ar gyfer Sir Ddinbych, mae'r swm yma eisoes wedi'i glustnodi o fewn cyllidebau gweithredol presennol. Mae'r trefniadau yma'n cefnogi cyflogi'r Tîm Rheoli a Fframwaith a gweithgarwch cysylltiedig.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Mae gan y Fframwaith effaith cadarnhaol nid yn unig ar Sir Ddinbych, ond ar draws rhanbarth Gogledd Cymru trwy greu cyfleusterau newydd i'r cyhoedd eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys; adeiladu ysgolion newydd, adeiladu sydd yn amddiffyn swyddi presennol a chreu rhai newydd yn y sector adeiladu, trwy ddull Fframwaith Manteision Cymunedol mae'r gwaith yma hefyd yn darparu cyfle ar gyfer Ymgysylltu â'r Gymuned a helpu i hyrwyddo diwylliant bywiog a'r Gymraeg.
- 7.2. Mae'r Fframwaith yn gosod pwysigrwydd ar ddarparu'r buddion gorau o'r buddsoddiad a wnaed gan sicrhau fod yna effaith cadarnhaol ar gymunedau lleol.
- 7.3. Roedd budd-ddeiliaid yn rhan o'r asesiad ac fe ymgynghorwyd â nhw, cafodd ei asesu gyntaf wrth lunio'r achos busnes.

Gweler Atodiad 2 i weld fersiwn llawn o'r Asesiad o'r Effaith ar Les

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Mae cleientiaid a chontractwyr sy'n cael eu penodi i'r Fframwaith yn parhau i fynegi eu hymrwymiad ac fe ymgysylltwyd â nhw cyn cychwyn y prosesau hyn.

- 8.2. Fe luniwyd y Fframwaith trwy gydweithio ag uwch reolwyr, gweithwyr adeiladu, cyfreithiol a chaffael proffesiynol o'r chwe Awdurdod Lleol partner.
- 8.3. Fe ymgynghorwyd â Sefydliadau Cyhoeddus eraill fel defnyddwyr potensial o'r Fframwaith.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Mae Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru - Fframwaith Prif Gontractwyr, wedi helpu i gyflwyno amrywiaeth o brosiectau mawr ar draws Gogledd Cymru. Mae'n bwysig bod y fframwaith yn parhau, neu'n cael ei amnewid er mwyn lleihau'r risg o unrhyw oedi i brosiectau. Mae'n ymddangos mai'r cyngor yw bod yr estyniad yn ffordd dderbyniol ymlaen o safbwynt cyfreithiol/caffael. Nid yw'r estyniad yn manylu ar unrhyw gostau ychwanegol uniongyrchol. Felly mae cefnogaeth lwyr i'r estyniad arfaethedig.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r risgiau allweddol canlynol wedi'u nodi:

- 10.1. Her gyfreithiol yn ymwneud ag ymestyn y Fframwaith - ceisiwyd cyngor cyfreithiol i leihau'r risg o her. Mae yna gynsail o Fframwaith SEWSCAP, gyfystyr â ni yn Ne Ddwyrain Cymru, a lwyddodd i gyflawni blwyddyn o estyniad heb heriau ym mis Ionawr 2022
- 10.2. Diffyg ymgysylltu gan Gontractwyr ar y Fframwaith - mae'n parhau i weithio'n agos mewn dull partneriaeth sydd wedi'n galluogi i gaffael prosiectau yn llwyddiannus yn ystod yr amseroedd heriol sydd ohoni.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- 11.1. Mae'r pŵer i wneud penderfyniad wedi'i gynnwys yn Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000, Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Rheoliad 33 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.
- 11.2. Caniateir estyniadau i fframweithiau o dan Reoliad 72 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 fel y'i diwygiedig ("PCR").